



Gwerthusiad Doethineb Gwledig Prif Ganfyddiadau Rhagfyr 2021



Mae Doethineb Gwledig yn brosiect pum mlynedd wedi'i ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr sy'n archwilio effaith gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu harwain gan bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn yr Alban a Chymru.

Fel rhan o gamau olaf y prosiect, mae partneriaid Doethineb Gwledig; Outside the Box, Volunteering Matters Cymru a'r Tîm Datblygu Cenedlaethol dros Gynhwysiant (NDTi) yn rhannu'r hyn a ddysgwyd yn ystod y bum mlynedd i alluogi pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig eraill yn y DU i ddefnyddio ac elwa o'r hyn sy'n gweithio.

Amcanion y Prosiect

Mae targedau Doethineb Gwledig wedi esblygu yn ystod y bum mlynedd, i adlewyrchu natur ddatblygol y prosiect, a'r cymunedau roedd yn gweithio â nhw. Er hyn, maent yn dal i ganolbwyntio ar:



Cymunedau Doethineb Gwledig

Scotland

- Eaglesham a Waterfoot
- Ucheldir Swydd Perth
- Gogledd Angus
- Burghead, Hopeman a Cummington
- Gororau'r Alban

Wales

- Coed-llai a Phontblyddyn
- Aberdaugleddau
- Penrhyn Dale
- Treffynnon

Dyluniad y Prosiect

Roedd Doethineb Gwledig yn brosiect hir dymor a gafodd ei ddylunio fel taith tri cham i'w gwblhau mewn cymunedau rhwng 2017 - 2022.



Cam Un: 2017 – 2019 Gweithio gyda phum ardal leol; Eaglesham, Ucheldir Swydd Perth, Gogledd Angus, Coed-llai ac Aberdaugleddau, a chael trafodaethau â phobl hŷn mewn cymunedau gwledig eraill. Bwydo dysgu i mewn i ddatblygiadau polisi ac arfer yng Nghymru a'r Alban.



Cam Dau: 2019 – 2021 Gweithio gyda phedair ardal ychwanegol; Burghead a Hopeman, Gororau'r Alban, Penrhyn Dale a Threffynnon, a bwydo canfyddiadau i ddatblygiadau polisi ac arfer yng Nghymru a'r Alban.



Cam Tri: 2020 – 2022 Mae pob ardal wledig oedd ynghlwm â'r prosiect yn parhau i gael cefnogaeth, ac mae cyfraniadau'n cael eu gwneud i ddatblygiad polisi lleol a chenedlaethol.

Er bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y gwaith a ddisgwyliwyd i'w gwblhau yng Ngham dau a Thri, roedd natur organig Doethineb Gwledig yn golygu y gellid cymryd camau i ymateb i'r sefyllfa newydd. Llwyddodd y prosiect i gyfoethogi ei weithgareddau er mwyn lleihau ynysigrwydd cymdeithasol a chefnogi grwpiau lleol gyda'u hymateb i'r pandemig.

Felly, mae'r dysgu a rennir yma wedi'i osod yng nghyd-destun pandemig COVID-19. Roedd hwn yn gyfnod unigryw mewn hanes, a gobeithir na chaiff ei ailadrodd, ond gall y gwersi a ddysgwyd fod yn fewnwelediad gwerthfawr i'r hyn y mae angen i brosiect cymunedol ei wneud i ffynnu hyd yn oed mewn amgylchiadau anffafriol.

Gosod yr hanfodion



Mae cymunedau lleol yn gwybod beth sydd orau iddynt – Dylai prosiectau cymunedol barhau i gredu fod pobl lleol yn gwybod beth sydd orau iddynt a'u cymunedau. Dylid darparu crynodeb byr sy'n adlewyrchu hyn i weithwyr/gwirfoddolwyr.



Dod o hyd i'r cyllid cywir – Dewch o hyd i gyllid sy'n eich galluogi i wrando ar gymunedau a gweithio'n hyblyg gyda nhw, nid 'dros' gymuned, o fewn cyfnod prosiect pendant.



Dewis y bobl iawn – Treuliwch amser yn cael y gweithwyr/gwirfoddolwyr iawn; bydd unigolion lleol sydd â hyder yn y gymuned yn gweithio tan ddiwedd y prosiect, a gallant fod yn gwndid o syniadau, cysylltiadau, gwybodaeth a chyllid.



Dechrau trafodaethau twym – Siaradwch â phobl; ewch i gymunedau ac ymweld â grwpiau a gwasanaethau. Siaradwch â phobl wahanol a gofynnwch gwestiynau gwahanol.



Ffurio cysylltiadau a meithrin hyder – Treuliwch amser yn ffurfio cysylltiadau gyda phobl a chymunedau. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu hyder a helpu'r prosiectau i lwyddo.



Gwrando a denu – Yn gyntaf, gwrandewch ar syniadau a phryderon pobl cyn cynnig syniadau, gwybodaeth, cysylltiadau, ac adnoddau.



Rhannu'r hyn sy'n digwydd – Rhannwch yr hyn rydych yn ei wneud â chymunedau a llunwyr polisi eraill; rhannwch syniadau, heriau, llwyddiannau a dysgu.



Defnyddio gwybodaeth a sgiliau lleol – Peidiwch â bod ofn defnyddio gwybodaeth gweithwyr/ gwirfoddolwyr am yr ardal lleol i ffurfio cysylltiadau, datblygu syniadau a'ch prosiect.



Datblygu'ch sgiliau a'ch cryfderau – Dylai gweithwyr/gwirfoddolwyr cymunedol barhau i ddatblygu a grymuso eu sgiliau i helpu i fodloni anghenion y gymuned maen nhw ei chefnogi.



Annog pobl i gysylltu – Po fwyaf eang y mae pobl yn cysylltu â'u cymuned, yr ardal lleol a rhwydweithiau cenedlaethol, y mwyaf o gynghreiriau, cyfleoedd a phartneriaethau fydd gan eich prosiect.



Cefnogi pobl i gymryd y cam cyntaf – Gweithio wrth eu pwysau nhw, eu cefnogi nhw i edrych ar ffyrdd newydd o wneud a bodoli, lleisiwch eich syniad, ond anogwch nhw i arwain a rheoli'r hyn sy'n digwydd yn eu cymuned.

Peidio â rhoi'r ffidil yn y to



Gwrando ar anghenion newydd cymuned a gweithredu arnynt –

Gwrandewch eto ar syniadau a phryderon pobl cyn cynnig syniadau newydd, gwybodaeth, cysylltiadau ac adnoddau. Denwch fwy o bobl o wahanol boblogaethau, cymunedau, neu ardaloedd, os yw hyn yn teimlo'n bwysig a defnyddiol.



Bod yn hyblyg a chreadigol – Bod yn barod i newid cwmpas eich gwaith yn llwyr. Meddwl yn greadigol am yr hyn sydd ei angen, a sut ellir cefnogi hyn o fewn cymunedau.



Peidio â gwneud rhagdybiaethau – Byddwch yn agored ac yn onest â chymunedau a phobl ynghylch yr heriau a wynebir. Peidiwch â dyfalu beth mae pobl ei eisiau, beth allant ei wneud neu ei gynnig.




Siarad â chyllidwyr a phartneriaid – Cyfathrebwch yn rheolaidd â'ch cyllidwyr a'ch partneriaid i sicrhau eu bod nhw'n gwybod beth sy'n digwydd, beth sydd ei angen a sut allant helpu.



Dod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio – Treuliwch amser yn dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, fydd yn helpu pawb i fod yn rhan o'r gwaith a pharhau i ddatblygu'r prosiect. Gofynnwch gwestiynau am beth mae pobl ei angen i gadw cysylltiad, pa gefnogaeth maen nhw ei eisiau a pha offer allai eu helpu nhw.



Ffurio cysylltiadau – Defnyddiwch y cysylltiadau a ffurfiwyd ar ddechrau'r prosiect i gefnogi ei drywydd newydd ac anghenion y gymuned.



Rhannu'r hyn sy'n digwydd – Dywedwch wrth gymunedau a llunwyr polisi am y gwahanol bethau rydych chi'n eu gwneud; rhannwch syniadau, heriau, llwyddiannau a dysgu.



Cysylltu a myfyrio – Rhoi lle i weithwyr/gwirfoddolwyr cymunedol, arweinwyr prosiect ac aelodau'r gymuned fyfyrto ar beth sydd wedi bod yn digwydd



Galaru'r gwaith a obeithiwyd ei wneud – Dylid rhoi lle a chymorth i weithwyr/gwirfoddolwyr cymunedol ac arweinwyr prosiect alaru am y gwaith roeddynt wedi gobeithio'i wneud. Mae hyn yn eithriadol o bwysig os yw'r prosiect wedi newid yn sylweddol dros amser.

Gadael etifeddiaeth



Annog cysylltiadau – Cefnogi cymunedau i gynnal y cysylltiadau, y rhwydweithiau a'r partneriaethau sydd wedi tyfu yn ystod y prosiect.



Denu llunwyr polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau – Rhannu dysgu, gwybodaeth ac argymhellion gyda llunwyr polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau i helpu i ymgorffori'r prosiect ar raddfa leol a chenedlaethol.



Chwilio am adnoddau i gefnogi prosiectau yn y dyfodol – Cefnogi cymunedau i ddod o hyd i adnoddau, eiddo, cymorth ymarferol a chyllid sy'n helpu i gynnal a datblygu gweithgareddau mae'r prosiect wedi helpu i'w sefydlu, lle bo angen gwneud hyn.



Perchnogaeth gymunedol – Dylai cymunedau fod yn berchen ar y prosiectau a'r gweithgareddau maent yn eu creu. Dylai gweithwyr/gwirfoddolwyr cymunedol allu dechrau trosglwyddo cymunedau, a chamu oddi wrthynt, wrth i'r prosiect ddod i ben.

Rhagor o wybodaeth

Mae Outside the Box, Volunteering Matters Cymru a'r Tîm Datblygu Cenedlaethol dros Gynhwysiant (NDTi) yn gobeithio fod yr hyn a rannwyd gan Ddoethineb Gwledig wedi bod yn ddefnyddiol i chi.

Os hoffech ragor o wybodaeth ynghylch y wybodaeth yn y ddogfen hon, neu am Ddoethineb Gwledig yn gyffredinol, ewch i wefan y prosiect www.ruralwisdom.org

Pwynt Cyswilt Gwerthuso

Dr Victoria Mason-Angelow
Cynorthwydd Ymchwil a Gwerthuso
Victoria.Mason-Angelow@ndti.org.uk

National Development Team for Inclusion (NDTi)
www.ndti.org.uk

Adnoddau

Mae mwy o wybodaeth ac adnoddau ar gael yma:
www.ruralwisdom.org